

ROBERTS, GRIFFITH ('Gwrtheyrn'; 1846 - 1915), llenor a cherddor

Enw: Griffith Roberts
Ffugenw: Gwrtheyrn
Dyddiad geni: 1846
Dyddiad marw: 1915
Plentyn: Margaret Ellen Hughes (née Roberts)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor a cherddor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 7 Hydref 1846 yn yr Hendre-bach, Gwytherin. Heb gael ond ychydig ysgol, aeth yn 10 oed i Ysbyty Ifan, yn brentis gwehydd, a manteisiodd yn ddirfawr ar y gymdeithas lenyddol a cherddorol a flodeuai ym Mhentrefoelas yn y dyddiau hynny. Bu wedyn am ysbaid yng ngwasanaeth '[Gwilym Cowlyd](#)' (W. J. Roberts) yn Llanrwst; ond dychwelodd at wehydda. Wedi priodi (1869) aeth i fyw i d -capel Cwmtirmynach, ac ar ôl hynny i Gefnddwysarn, gan weithio yn y ffatrioedd gwlan yn y ddau le; ond yn 1877 penodwyd ef a'i briod yn ofalwyr y tloty yn y Bala, a bu yn ei swydd hyd ryw ddwy flynedd cyn ei farwolaeth, 20 Ionawr 1915. Yr oedd yn ddyn amryddawn, wedi ei ddiwyllio ei hunan i fesur helaeth iawn. Ar un cyfnod, bu'n ddatgeiniad o gryn fri, a bu ar hyd ei oes yn weithgar gyda cherddoriaeth y cylch y bu fyw ynndo. Mewn llenyddiaeth, yr oedd wedi ei ddisgyblu ei hunan yn drwyadl yn y mesurau caethion; ond er iddo gyhoeddi, 1873, *Caneuon Gwrtheyrn*, eto fel athro barddol yn hytrach nag fel bardd y rhagorai - bu'n gefn mawr i feirdd ym Mhenllyn, e.e. i '[Ddewi Havhesp](#)' (David Roberts), a sgrifennodd yn *Y Brython* (Lerpwl) ar hen feirdd y cywydd. Dengys ei lawysgrifau, sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol, led ei ddiddordeb yn hen lenyddiaeth ei wlad. Mewn maes cwbl wahanol, cyhoeddodd lyfr bychan ond gwir ddefnyddiol, *Pum Plwy Penllyn*, 1897, hanes gweinyddiad Deddfau'r Tlodion ym Mhenllyn o 1720 hyd 1897. Teilwng yw nodi hefyd ei fedr eithriadol fel hyfforddwr plant a ieuencid mewn darllen ac adrodd a chanu.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Ysgrifau coffa yn *Y Brython*, 4 Chwefror 1915, a *Y Seren* y Bala, 6 a 13 Chwefror 1915

gwybodaeth gan ei deulu
adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361388](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

